**Ken Skates AC/AM**
**Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth**
**Minister for Economy and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-853
Ein cyf/Our ref KS/08520/19

Janet Finch-Saunders AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

Government.Committee.Business@gov.wales

11 Rhagfyr 2019

Annwyl Janet

Diolch am eich llythyr dyddiedig 21 Tachwedd ynghylch Deiseb P-05-853 - Na i Gau Cyffordd 41 o gwbl.

Gwnaethom gyhoeddi ein hadroddiad interim ar 7 Hydref a oedd yn cynnwys data am nitrogen deuocsid (NO2) a chyflymder a gofnodwyd yn y 5 lleoliad ble roedd lefelau NO2 yn mynd y tu hwnt i derfynau cyfreithiol, gan gynnwys yr M4 rhwng Cyffordd 41 a Chyffordd 42, Port Talbot.

O safbwynt yr M4 ym Mhort Talbot, mae'r data wedi nodi bod lefelau NO2 wedi lleihau i 45g/m3 o'i gymharu â'r cyfartaledd chwe misol o 52.2µg/m3 ers cyflwyno'r terfyn cyflymder o 50mya ym mis Mehefin 2018. Mae'r sefyllfa'n parhau'n gymhleth, fodd bynnag, gan fod ansawdd aer yn sensitif i nifer o faterion gan gynnwys effeithiau'r tywydd/effeithiau tymhorol, llif traffig (gan gynnwys crynswth), cyflymder a fflydoedd. O'r herwydd mae rhagor o waith monitro yn cael ei gynnal a bydd ein hadroddiad nesaf yn cael ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2020. Bydd yr adroddiad hwn yn cynnwys y set lawn o ddata ynghylch crynodiadau NO2 ar gyfer blwyddyn galendr 2019.

Er bod y lleihad mewn crynodiadau NO2 yn newyddion cadarnhaol, fel y nodir yn ein cynllun atodol ar gyfer NO2, rydym yn parhau i anelu at sicrhau cydymffurfiaeth o fewn y cyfnod byraf posibl o amser. Mae hyn yn cynnwys parhau i ddatblygu'r Mesurau Rhagofalus a Ddargedwir ac ymgysylltu â rhanddeiliaid yn eu cylch. Mae'r gwaith o gau ffordd ymuno Cyffordd 41 a'r mesurau gwyriadau amrywiadwy ar yr M4 ym Mhort Talbot wedi cychwyn a byddwn yn ceisio trefnu cyfarfod ag Aelodau Cynulliad lleol a Chyngor Castell-nedd Port Talbot yn ystod yr wythnosau nesaf.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Deallaf fod gan bobl farn gref ynghylch posibilrwydd cau ffyrdd ymadael ar yr M4 ym Mhort Talbot yn dilyn y cyfnod treialu a gynhaliwyd yn 2015. Fodd bynnag, golyga dyfarniad yr Uchel Lys mai'r unig ystyriaeth gyfreithlon oedd pennu a gweithredu'r pecyn o fesurau a fydd yn cyflawni cydymffurfiaeth â gwerthoedd terfynau NO2 cyn gynted â phosibl. Golyga hyn y bydd sicrhau cydymffurfiaeth yn debygol yn hytrach na'n bosibl. Nodwyd yn glir yn y dyfarniad na fyddai'n gyfreithlon i ystyried cost ac amhoblogrwydd unrhyw fesur.

Byddwn yn cyflwyno rhagor o wybodaeth am waith datblygu'r Mesurau Rhagofalus a Ddargedwir gan gynnwys canlyniadau trafodaethau â rhanddeiliaid yn yr adroddiad y byddwn yn ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2020.

**Ken Skates AC/AM**
Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth
Minister for Economy and Transport